



Eich cyf/Your ref: CLA288
Ein cyf/Our ref: LF/AD/1008/13

Mr David Melding AC
Cadeirydd
Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

21 Hydref 2013

CLA288 – Rheoliadau Dŵr Ymdrochi 2013

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 8 Hydref yn mynegi siomedigaeth y Pwyllgor nad yw Rheoliadau Dŵr Ymdrochi 2013 ar gael yn Gymraeg.

O ran cyfieithu offerynnau cyfansawdd, nid yw Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi unrhyw gyfieithiadau ôl-weithredol Cymraeg gan nad oes ganddyn nhw rym y gyfraith. Felly, gan na fyddai gan gyfieithiad Cymraeg o Reoliadau Dŵr Ymdrochi 2013 unrhyw safiad cyfreithiol, rwyf wedi penderfynu peidio â'i gyhoeddi.

Fel y nodwyd yn llythyr Prif Weinidog Cymru atoch chi dyddiedig 1 Tachwedd 2011, pan fydd gan Weinidogion Cymru'r hawl i wneud is-ddeddfwriaeth i Gymru, oni fydd rhesymau da dros wneud hynny, rhagdybir y bydd y pŵer yn cael ei arfer drwy offeryn sydd ar gyfer Cymru'n unig. Byddai'r offeryn hwnnw'n ddwyieithog oni fydd y meini prawf yng Nghynullun Iaith Gymraeg Gweinidogion Cymru o dan Adran 78 o Ddeddf Lywodraeth Cymru 2006 yn datgan fel arall.

Mae llythyr Prif Weinidog Cymru hefyd yn egluro bod yna adegau pan mai'r ffordd fwyaf priodol yw llunio offeryn statudol ar sail gyfansawdd gyda'r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth y DU. Nodwyd enghraifft o hyn yn ymateb y Llywodraeth i Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Reoliadau Dŵr Ymdrochi 2013. Wrth ymateb i her y Comisiwn Ewropeaidd ar drawsosod Cyfarwyddeb 2006-07 yng Nghymru a Lloegr, ystyriwyd ei bod yn briodol cynnal dull cyffredin o drawsosod yng Nghymru a Lloegr er mwyn sicrhau yr eir ati i leddfu pryderon y Comisiwn yn llawn.

Yn gwis
Alun

Alun Davies AC / AM
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

Alun Davies AC / AM
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Minister for Natural Resources and Food



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: CLA288
Ein cyf/Our ref: LF/AD/1008/13

Mr David Melding AM
Chair
Constitutional and Legislative
Affairs Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

21 October 2013

David


CLA288 – The Bathing Water Regulations 2013

Thank you for your letter of 8 October, which expresses the Committee's disappointment that the Bathing Water Regulations 2013 have not been made available in Welsh.

The Welsh Government's position on translating composite instruments is that we will not produce retrospective Welsh translations which cannot have the force of law. Therefore, as any retrospective Welsh language translation of the Bathing Water Regulations 2013 would have no legislative standing, I have taken the decision not to produce such a translation.

As set out in the First Minister's letter to you dated 1 November 2011, where the Welsh Ministers have the power to make subordinate legislation for Wales the presumption will be that, unless there are good reasons to do otherwise, the power will be exercised via a Wales only instrument, and that instrument will be bilingual unless the criteria in the Welsh Ministers' Welsh Language Scheme under Section 78 of the Government of Wales Act 2006 dictates otherwise.

The First Minister's letter also explained that there are occasions when making statutory instruments on a composite basis with the relevant UK Minister is the most appropriate approach. An example of this was set out in the Government's response to the Constitutional and Legislative Affairs Committee Report on the Bathing Water Regulations 2013. In responding to the challenge from the European Commission on the common transposition of Directive 2006/7 in England and Wales, it was considered appropriate to maintain a common England and Wales approach to transposition to ensure the Commission's concerns were fully addressed.



Alun Davies AC / AM
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Minister for Natural Resources and Food